Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Planhigion (Cyflyrau Ffytoiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **19 Hydref 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Iechyd Planhigion (Cyflyrau Ffytoiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae'r diwygiadau a wneir gan Reoliadau Iechyd Planhigion (Cyflyrau Ffytoiechydol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn ddiwygiadau technegol i'w gwneud yn haws eu gweithredu ac nid ydynt yn newid y polisi. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud newidiadau ymarferol a diwygiadau canlyniadol eraill i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2016/2031 ar fesurau amddiffyn rhag plâu planhigion i sicrhau bod mesurau rheoli ffytoiechydol planhigion ym Mhrydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio yn parhau i weithio.

**Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn**

<u>Deddfwriaeth Ewropeaidd</u>

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072.

**Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd ddeddfwriaethol Senedd Cymru ond maent yn lledu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru trwy roi swyddogaethau iddynt (fel 'Awdurdod Cymwys' Cymru) heb lyffethair.

**Diben y diwygiadau**

Diben y Rheoliadau yw cynnal bioddiogelwch a chefnogi masnach trwy sicrhau bod mesurau effeithiol ar gyfer diogelu iechyd planhigion yn parhau o fewn Prydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

Mae Rheoliadau 2020 yn rhestru plâu cwarantin Prydain Fawr, plâu cwarantin amodol Prydain Fawr, plâu cwarantin Ardaloedd Heb Blâu a phlâu di-gwarantin rheoleiddiedig Prydain Fawr a mesurau'n ymwneud â chyflwyno planhigion, cynnyrch planhigion a gwrthrychau eraill i Brydain Fawr a symud planhigion, cynnyrch planhigion a gwrthrychau eraill o fewn Prydain Fawr er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r plâu hynny i lefel dderbyniol.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi manylion tarddiad, pwrpas ac effaith y Rheoliadau, ar gael yn:

https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348213706/introduction

**Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU i wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn, ac nid ydynt yn newid polisi. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.